Canllawiau Iaith

Mae'r canllawiau iaith isod yn ffurfio rhan o Ganllawiau Cydymffurfiaeth S4C ac yn cynnig arweiniad ar yr hyn y mae S4C yn ei ddisgwyl gan gynhyrchwyr o ran defnydd o'r iaith Gymraeg, ac ieithoedd eraill, mewn rhaglenni.

1. Y GYMRAEG AR S4C

1.1 Amcan sylfaenol S4C yw darparu gwasanaeth teledu ac aml-blatfform o safon uchel trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

1.2 Prif nod S4C yw darparu cynnwys Cymraeg a fydd yn cael ei fwynhau, ei werthfawrogi a'i ddefnyddio gan wylwyr o bob rhan o Gymru a thu hwnt. Bydd S4C yn sianel Gymraeg i Gymru gyfan fydd yn arddel, fel un o'n gwerthoedd sylfaenol, fod y Gymraeg yn perthyn i ni gyd. Ein nod fydd ehangu cyrhaeddiad y Gymraeg i apelio at bob rhan o'n cymdeithas (e.e. pob oed, cefndir a dosbarth cymdeithasol, ymhlith eraill), ac at bobl o wahanol lefelau o allu ieithyddol yn y Gymraeg, a'r di-Gymraeg.

1.3 Mae dyletswydd sylfaenol ar y gwasanaeth, ac ar bawb sy'n cyfrannu'n broffesiynol iddo, i gyfathrebu'n effeithiol â'r gynulleidfa hon yn ei chyfanrwydd.

1.4 Er mwyn gwneud hyn, rhaid ystyried y ffactorau sy'n dylanwadu ar allu gwylwyr i ddeall yr hyn a ddywedir a thrwy hynny fwynhau rhaglen yn llawn. Ymhlith yr elfennau ieithyddol y mae llefaru, geirfa, chystrawen ac acen, ac ymhlith yr elfennau technegol y mae techneg sain a'r lluniau a ddangosir. Mae'n gyfrifoldeb ar gynhyrchwyr rhaglenni i sicrhau bod sylw digonol yn cael ei roi i bob un o'r elfennau hyn.

1.5 Dylid diffinio'r gynulleidfa darged yn ofalus wrth ystyried y cywair ieithyddol priodol ar gyfer pob rhaglen. Dylid anelu fel rheol at ieithwedd ddealladwy ac addas i'r cywair, ac at ynganu sy'n eglur ac yn naturiol i'r siaradwr.

1.6 Mae'r Gymraeg, fel pob iaith fyw, yn newid ac yn esblygu'n gyson. Mae'n bwysig fod yna le ar wasanaeth S4C i unigolion a chymunedau ddefnyddio'r iaith mewn ffordd greadigol a defnyddio ffurfiau newydd. Ar yr un pryd, mae i wasanaeth darlledu cenedlaethol swyddogaeth bwysig o gyflwyno iaith sy'n gweddu'n ramadegol i'r cyd-destun ac yn hawdd ei deall. O bryd i'w gilydd mae'n bosib y bydd yna raglenni sydd â swyddogaeth benodol ac y bydd y rhain yn mabwysiadu arddull ieithyddol arbennig er mwyn cyrraedd eu nod, ond dylai hyn bob amser ddigwydd yn dilyn trafodaeth fanwl gyda'r Comisiynydd Cynnwys perthnasol a gyda'u cydsyniad.

1.7 Mae gwahaniaeth rhwng y safonau y dylai cyflwynwyr a chyfranwyr proffesiynol anelu atynt a'r ystyriaethau sy'n berthnasol i gyfranwyr eraill. Gosodir isod y disgwyliadau ychwanegol sy'n berthnasol i gyflwynwyr a chyfranwyr proffesiynol.

Cyflwynwyr

1.8 Mae S4C yn disgwyl i'w chyflwynwyr gyfathrebu'n effeithiol â'r gynulleidfa sy'n cael ei thargedu gan anelu at ddefnyddio Cymraeg effeithiol, creadigol ac addas ar gyfer cynulleidfa'r cynnwys. Mae cyfrifoldeb ar gynhyrchwyr i roi arweiniad a hyfforddiant, lle bo angen, i'r perwyl hwn. Gall y Comisiynydd Cynnwys perthnasol roi adborth a chefnogaeth.

1.9 Cynnwys wedi'i sgriptio. Mae disgwyl i gynnwys sydd wedi ei sgriptio a'i recordio ymlaen llaw gael ei ysgrifennu a'i olygu yn y cywair mwyaf addas ar gyfer y gynulleidfa

darged. Dylid sicrhau bod sgriptwyr a llefarwyr yn ymwybodol o'r angen i ddefnyddio ffurfiau llafar sy'n addas i'r llefarydd.

1.10 Cynnwys heb ei sgriptio. Mae disgwyl i gyflwynydd holi a sgwrsio mewn arddull sy'n naturiol i'r sefyllfa a'r cyfranwyr y mae'n ymwneud â nhw. Gall hyn olygu newid cywair ac arddull ar gyfer gwahanol fathau o gynnwys a chynulleidfa ar S4C.

Cyfranwyr

1.11 Mae S4C yn awyddus iawn i weld cynrychiolaeth mor eang â phosibl o fywyd Cymru a'i thrigolion yn cael ei hadlewyrchu ar ei rhaglenni. Mae llawer o siaradwyr Cymraeg yn ansicr ynglŷn â'u gallu ieithyddol ac yn aml yn teimlo "nad yw eu Cymraeg yn ddigon da"; mae rôl gan ein cynhyrchwyr ei chwarae i esbonio i gyfranwyr bod pob math o Gymraeg yn bwysig ac yn werthfawr i ni gyd. Dylai rhaglenni sy'n gwneud defnydd o gyfranwyr o blith y cyhoedd eu cymell i wneud hynny yn eu hiaith arferol, gan gynnwys y dafodiaith a/neu eirfa maen nhw'n ei defnyddio fel arfer.

Lle gofynnir am gymorth, mewn perthynas â geirfa, dylid rhoi'r cymorth hwnnw, ond dylid osgoi unrhyw awgrym o orfodaeth i ddefnyddio Cymraeg mwy ffurfiol, os nad yw hynny'n teimlo'n naturiol i'r cyfrannwr.

1.12 Mae S4C yn credu y gall y gwasanaeth helpu i ehangu defnydd o eirfa Gymraeg gyfoes lle gellir gwneud hynny heb amharu ar ddealltwriaeth a mwynhad o gynnwys y rhaglen. Dylai cynhyrchwyr fod yn ymwybodol fodd bynnag pan ddefnyddir termau technegol anghyfarwydd neu newydd y gall hyn fod yn rhwystr i bobl ddeall y rhaglen a dylid gwneud pob ymdrech bosibl i atgyfnerthu dealltwriaeth o'r gair neu gymal trwy un neu fwy o'r canlynol:

(i) esbonio ystyr y gair;

(ii) ceisio atgyfnerthu dealltwriaeth o eiriau newydd trwy sicrhau bod y llun neu'r cyd-destun yn cynorthwyo i egluro'r ystyr;

(iii) defnyddio'r term Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg.

2. DEFNYDD O EIRIAU NEU GYMALAU SAESNEG

2.1 Mae'r canllawiau cyffredinol uchod i gyd yn berthnasol wrth ystyried y defnydd o eiriau neu ymadroddion Saesneg mewn cyflwyniadau Cymraeg ("cyfnewid cod"). Mae hyn yn nodwedd gyffredin iawn o'r iaith lafar ac mae'n fater sy'n haeddu gofal a sylw deallus gan gynhyrchwyr. Ni ddylid cymryd y gwnaiff y tro i gyflwynwyr ddefnyddio geiriau ac ymadroddion Saesneg hyd yn oed os yw'r rhain i'w clywed yn gyffredin yn yr iaith lafar. Mae priodoldeb cyfnewid cod yn lleihau yn dibynnu ar ba mor ffurfiol yw'r rhaglen; hynny yw, y mwyaf ffurfiol yw'r rhaglen, y lleiaf o gyfnewid cod sy'n debygol o fod yn addas.

2.2 Ar hyd y blynyddoedd mae ymchwil yn dangos bod gwylwyr yn gyffredinol:

a) yn dymuno i S4C arddel safonau ieithyddol uchel;

b) yn credu bod iaith rhai rhaglenni yn rhy anodd iddyn nhw ei deall;

c) yn croesawu rhaglenni sy'n defnyddio iaith debyg i'w hiaith lafar eu hunain.

Nid oes cysondeb o anghenraid rhwng y tri chanfyddiad yma ond wrth ystyried geirfa rhaglen rhaid cadw'r tri mewn cof.

2.3 Mae amrywiaethau mawr yn yr hyn a ystyrir yn dderbyniol, yn ddymunol neu'n gyffredin rhwng un garfan o gymdeithas a'r llall. Mae hefyd amrywiaethau ynglŷn â dealltwriaeth o beth yw "gair Saesneg". Ni ellir cymryd yn ganiataol fod defnydd o air Saesneg sy'n gyffredin iawn mewn un cylch cymdeithasol neu ardal yr un mor dderbyniol mewn ardal neu gylch arall. Yn yr un modd, bydd rhai geiriau Cymraeg sy'n gyfarwydd ac yn gyffredin mewn rhai cylchoedd yn cael eu hystyried yn ddieithr mewn cylchoedd eraill.

2.4 Dylai cynhyrchwyr gadw llygad ar y defnydd o eiriau Saesneg o fewn eu rhaglenni er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â'r cywair sy'n briodol i'r rhaglen, ac i sicrhau nad yw'r defnydd o eiriau ac ymadroddion Saesneg yn cynyddu'n ddifeddwl.

2.5 Dylai cynhyrchwyr gymell cyflwynwyr proffesiynol i ehangu eu gwybodaeth a'u meistrolaeth o'r iaith fel eu bod yn gallu cyfrannu'n greadigol ar bob achlysur at adnabod a defnyddio'r eirfa a'r ieithwedd fwyaf priodol. Gweler manylion hyfforddiant sydd ar gael yn Adran 7 y ddogfen hon; byddai S4C yn hapus i ystyried anghenion hyfforddiant ymhellach.

3. DEFNYDD O GYFWELIADAU A CHYFRANIADAU SAESNEG

3.1 O bryd i'w gilydd, bydd cynhyrchydd yn ymwneud â sefyllfa lle y gall ymddangos yn ddilys, am resymau golygyddol, i gynnwys deunydd Saesneg. Gall defnydd gofalus, dethol ac achlysurol o'r Saesneg gryfhau rhaglen fel ei bod yn fwy cynhwysfawr a diddorol nag y byddai fel arall. Pan fo'r defnydd o gyfraniadau Saesneg dan ystyriaeth dylid sicrhau bod cyfiawnhad golygyddol ar gyfer y cynnwys hwn.

3.2 Dylai pob cynhyrchydd fod yn ymwybodol fod ffin yn bodoli, sy'n anodd ei diffinio gan ei bod i raddau helaeth yn oddrychol, rhwng yr hyn sy'n dderbyniol a'r hyn sy'n ormodol. Mae'r ffin yma'n bodoli o fewn rhaglenni unigol ac o fewn y gwasanaeth yn ei gyfanrwydd. Dylai cynhyrchwyr geisio adnabod y ffin yma a'i pharchu gan sicrhau bod pob aelod perthnasol o'r tîm cynhyrchu'n ymwybodol o'r arweiniad a roddir yn y ddogfen hon.

3.3 Dylai'r syniadau cynnwys sy'n cael eu cynnig i S4C allu sefyll ar eu traed eu hunain yn Gymraeg. Dylid yn y lle cyntaf ymdrechu'n ddyfal i chwilio am siaradwyr Cymraeg i drafod pynciau sydd dan sylw.

3.4 Ni ddylid cyflwyno trwy gyfrwng y Saesneg os nad oes rheswm golygyddol cryf ac eithriadol dros wneud hynny.

3.5 Dylai pob cynhyrchydd fod yn ymwybodol o effaith unrhyw ddefnydd o'r Saesneg ar gynulleidfa darged y rhaglen wrth benderfynu a yw'r elfen Saesneg sydd dan ystyriaeth yn briodol ai peidio. Dylid ymgynghori â'r Comisiynydd Cynnwys pan fo unrhyw ansicrwydd.

3.6 Bydd angen caniatâd penodol y Comisiynydd Cynnwys ar gyfer unrhyw ddefnydd estynedig o Saesneg o fewn rhaglen neu gyfres. Pan fydd defnydd sylweddol o Saesneg yn cael ei ystyried, dylai'r cynhyrchydd wneud hyn yn glir i'r Comisiynydd Cynnwys o'r cychwyn er mwyn i'r Comisiynydd Cynnwys allu ystyried priodoldeb hynny o fewn gofynion y rhaglen ei hun ac o fewn y gwasanaeth ar ei hyd.

3.7 Pan fydd y Comisiynydd Cynnwys yn ystyried a ddylid defnyddio'r Saesneg, bydd yn rhoi ystyriaeth i ddilysrwydd golygyddol ac adeiladwaith y rhaglen, faint o Saesneg ar gyfartaledd sydd yn y rhaglen, hyd pob cyfraniad Saesneg unigol, a pherthynas y rhaglen dan sylw gyda rhaglenni eraill yn yr amserlen. Bydd yn ofynnol i'r cyflenwr lynu'n agos at ofynion y Comisiynydd Cynnwys.

3.8 Mewn rhaglenni ar gyfer oedolion, mae S4C yn gyffredinol yn mabwysiadu'r agwedd fod gwylwyr Cymraeg yn deall Saesneg. O'r herwydd, pan roddir cymeradwyaeth i ddefnydd o'r Saesneg, nid yw S4C yn disgwyl i'r eitemau hyn gael eu trosleisio neu eu his-deitlo i'r Gymraeg. Fe all, fodd bynnag, fod yn briodol ystyried cwtogi ar effaith defnydd estynedig o'r Saesneg trwy, er enghraifft, grynhoi'r hyn a ddywedir trwy gyfrwng sylwebydd. Mater o farn olygyddol yw hyn a dylid ymgynghori gyda'r Comisiynydd Cynnwys.

3.9 Nid yw S4C yn credu ei bod yn ymarferol ceisio rhagweld a gosod rheol ymlaen llaw ar gyfer pob achlysur a all godi lle y gellid cyfiawnhau defnyddio'r Saesneg. Ond dyma rai enghreifftiau a allai gynnig cyfiawnhad golygyddol digonol.

i) Newyddion, Materion Cyfoes, Rhaglenni Dogfen a Rhaglenni Cylchgrawn

Mae S4C yn awyddus bod ein cynnwys yn y meysydd yma yn awdurdodol ac yn adlewyrchu straeon a phynciau mawr y dydd neu'r cyfnod. Mae'n bosibl y bydd cyfiawnhad golygyddol dros ddefnydd o gyfweliadau Saesneg yn yr achosion canlynol:

(a) Cyfweliadau gyda phersonau blaenllaw nad ydynt yn siarad Cymraeg.

(b) Pan fydd angen cyfweld person sy'n allweddol bwysig i'r stori neu sy'n dyst i ddigwyddiad penodol ond nad yw'n siarad Cymraeg.

(c) Pan nad oes siaradwr Cymraeg addas ar gael i gynnig sylwadau ar fater o ddiddordeb cyhoeddus a lle mae gofyn sicrhau cydbwysedd, atebolrwydd a diduedd rwydd priodol.

ii) Chwaraeon

Bydd y sylwebaeth ar raglenni chwaraeon yn Gymraeg bob amser. O bryd i'w gilydd, pan fo hawliau yn caniatáu, bydd cyfiawnhad dros gynnig ffrwd sain ychwanegol gyda sylwebaeth Saesneg.

Disgwylir i gynhyrchwyr sicrhau cyfweliadau gyda chwaraewyr/hyfforddwyr yn y Gymraeg pa bryd bynnag mae'n bosibl gwneud hynny. Ond pan nad oes chwaraewyr/hyfforddwyr Cymraeg eu hiaith ar gael, neu fod cyfweliad ar gael gyda ffigwr adnabyddus neu allweddol sydd ddim yn siarad Cymraeg, bydd cyfiawnhad dros holi cyfranwyr yn y Saesneg.

iii) Rhaglenni Drama a Chomedi

Mae S4C yn awyddus i hyrwyddo defnydd creadigol a bywiog o'r iaith Gymraeg yn y cyd-destunau hyn ond yn cydnabod hefyd y gall fod yna achlysuron pan fo defnydd o'r Saesneg yn gallu cyfrannu mewn ffordd benodol a gwahanol at amcanion y rhaglen. Yn gyffredinol, ni fydd S4C yn ystyried bod yr amcan o adlewyrchu'r byd fel y mae yn rheswm digonol dros ddefnyddio'r Saesneg mewn drama, ond mae yna gyd-destunau lle gall defnyddio'r Saesneg neu ieithoedd eraill fod yn hanfodol. Cyn cymeradwyo unrhyw sgript, bydd yn ofynnol i'r Comisiynydd Cynnwys benderfynu a fydd y defnydd arfaethedig o'r Saesneg yn dderbyniol ai peidio.

iv) Rhaglenni i Blant

(a) **Meithrin**
Cymraeg yw'r unig iaith y dylid ei defnyddio mewn rhaglenni ar gyfer y grŵp oedran hwn, heblaw defnydd cefnogol o iaith arwyddo.

(b) **Plant 5-10 oed**

Yn gyffredinol, Cymraeg (a defnydd cefnogol o iaith arwyddo) yw'r unig iaith y dylid ei defnyddio mewn rhaglenni ar gyfer plant heblaw o dan rai amgylchiadau arbennig. Byddai'n rhaid cyfiawnhau'r defnydd o'r Saesneg am resymau golygyddol i'r Comisiynydd Cynnwys perthnasol. Byddai hyn yn cynnwys defnydd o unrhyw bobl berthnasol am resymau golygyddol e.e. sêr pop enwog yn lansio ymgyrch, seremoni wobrwyo, dyfyniad pwysig yn y newyddion, fideos cerddoriaeth ayyb.

Mae Adran 7 y ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth am ffynonellau i gefnogi iaith y cwricwlwm, a fydd yn gyfarwydd i blant sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg.

(c) **Plant a phobl ifanc 10-15 oed**

Yn gyffredinol, ac eithrio iaith arwyddo, Cymraeg yw'r unig iaith y dylid ei defnyddio mewn rhaglenni ar gyfer plant heblaw o dan rai amgylchiadau arbennig. Mae'n bwysig iawn bod yr iaith a ddefnyddir yn y rhan hon o'r gwasanaeth rhaglenni yn gyfoes a dealladwy ac yn adlewyrchu ffordd o fyw'r gwylwyr. Yn yr un modd â'r grŵp oedran 5-10, byddai'n rhaid cyfiawnhau'r defnydd o'r Saesneg am resymau golygyddol i'r Comisiynydd Cynnwys perthnasol. Byddai hyn yn cynnwys y defnydd o bobl berthnasol am resymau golygyddol, e.e. sêr pop enwog yn lansio ymgyrch, seremoni wobrwyo, dyfyniad pwysig yn y newyddion, fideos cerddoriaeth ayyb. Wrth asesu pa mor briodol yw defnyddio'r Saesneg, rhaid i'r cwmni cynhyrchu fod yn ymwybodol o ymroddiad strategol S4C i feithrin a datblygu talent greadigol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Adran 7 y ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth am ffynonellau i gefnogi iaith y cwricwlwm, a fydd yn gyfarwydd i blant sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg.

v) Cynnwys i Ddysgwyr

Mae gan S4C rôl i'w chwarae o ran cefnogi'r rhai sy'n dysgu'r iaith. Mae yna awydd bod dysgwyr yn cael eu gweld a'u cynrychioli yn ein cynnwys yn gyffredinol, a bydd y sianel yn creu cynnwys penodol ar gyfer y garfan hon o'r gynulleidfa. Mae'n holl bwysig bod cynhyrchwyr sy'n darparu cynnwys o'r fath yn derbyn adborth gan arbenigwyr yn y maes dysgu er mwyn sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir yn briodol i'r lefel o ddysgu ac wedi'i chyflwyno mewn ffordd sy'n haws ei deall (yn arafach ac yn glir). Gall S4C hwyluso cysylltiad ag arbenigwyr sy'n gallu cefnogi cynhyrchwyr.

Mae'n bosibl y bydd ychydig mwy o Saesneg yn y rhaglenni sydd wedi'u hanelu at ddysgwyr lefelau sylfaenol. Serch hynny, mae Cymraeg araf, syml iawn yn fwy defnyddiol na Saesneg i rywun sy'n dysgu'r iaith; eto, gall arbenigwyr yn y maes gynnig adborth. Mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng defnyddio Cymraeg syml iawn ac ailadroddus ar y naill law, a chreu cynnwys pleserus sy'n atyniadol i'r gynulleidfa ar y llall.

Yn ogystal â chlywed "iaith y dosbarth", a'r patrymau a ddysgir i oedolion, mae'n bwysig bod dysgwyr yn clywed amrywiaeth eang o iaith lafar, er mwyn hwyluso eu mynediad i fod yn rhan o'n cymunedau.

4. GWYLWYR DI-GYMRAEG

4.1 Mae gwasanaeth S4C a'r iaith Gymraeg yn perthyn i Gymru gyfan, a hefyd i siaradwyr a chymunedau Cymraeg y tu hwnt i Gymru. Mae'r sianel yn awyddus i gael ei gweld yn ddeniadol ac yn werthfawr i bobl o bob gallu ieithyddol, gan gynnwys y rhai sy'n dysgu Cymraeg. Yn ogystal, hoffai'r sianel groesawu'r di-Gymraeg er mwyn ymestyn ymwybyddiaeth o'r iaith a pharch tuag ati. Dau brif ddull sydd o gyflawni hyn:

(a) trwy ddarparu is-deitlau yn y Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg;

(b) trwy sicrhau bod y rhaglenni eu hunain yn ddeniadol ac yn berthnasol i'r gynulleidfa eang hon.

O bryd i'w gilydd cynigir troslais Saesneg ar fotwm ar wahân ar rai rhaglenni unigol, er mwyn cynnig gwasanaeth sydd mor ddeniadol â phosib i wylwyr nad ydynt yn medru'r Gymraeg.

5. DEFNYDD O IEITHOEDD ERAILL MEWN RHAGLENNI CYMRAEG

5.1 Mae cynnwys unrhyw iaith ar wahân i'r Gymraeg neu'r Saesneg mewn rhaglenni yn fater golygyddol i'w drafod rhwng y cyflenwr a'r Comisiynydd Cynnwys.

5.2 Pan fwriedir cynnwys deunydd mewn iaith ar wahân i'r Gymraeg neu'r Saesneg mewn rhaglen, y Comisiynydd Cynnwys fydd yn penderfynu a ddylai'r cyfraniad gael ei is-deitlo neu ei ddybio. Fel arfer, a phan fo amser yn caniatáu, bydd yn ddymunol clywed yr iaith wreiddiol gydag is-deitlau Cymraeg ar y sgrin, ond bydd angen sicrhau mynediad hefyd i'r rhai sydd â nam ar y golwg. Dylai'r cyflenwr gysylltu ag S4C cyn gynted â phosibl i gael arweiniad. Pa ddull bynnag a ddefnyddir, dylid sicrhau bod y cyfieithiad yn adlewyrchu gwir ystyr yr iaith wreiddiol.

5.3 Mae S4C yn croesawu defnydd o iaith arwyddo, megis BSL a Makaton, fel rhan o'n cynnwys, fel rhan o'n nod i fod yn sianel sy'n adlewyrchu Cymru gyfan. Dylid trafod gyda'r Comisiynydd Cynnwys cyn gynted â phosibl os rhagwelir defnyddio iaith arwyddo, a sicrhau bod unrhyw iaith arwyddo yn cael ei chefnogi gan iaith lafar, boed fel rhan o'r sgwrs ar y sgrîn neu o fewn troslais.

6. CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

6.1 Mae S4C yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol fel platfform cyhoeddi. Mae hyn yn amrywio o gynnwys ffurf fer, i ffrydiau byw, i raglenni cyfan. Mae yna gyfrifon sy'n cael eu cynnal gan S4C ac mae eraill yn frandiau rhaglenni sy'n cael eu cynnal gan gwmnïau cynhyrchu. Mae cynnwys S4C yn eistedd ar blatfformau Facebook, Instagram, TikTok, Twitter (X) ac YouTube. Mae'r defnydd o iaith ar y platfformau yma yn dibynnu ar y pwrpas.

6.2 YouTube

Cymraeg bydd prif iaith S4C wrth gyhoeddi cynnwys ar YouTube. Pan fydd cynhyrchwyr yn creu cynnwys ar gyfer unrhyw gyfrif YouTube S4C, yn gyffredinol rydym yn disgwyl i'r cynhyrchwyr ddilyn y canllawiau uchod. Byddwn o bryd i'w gilydd yn cyhoeddi cynnwys Saesneg, pan fo cyfiawnhad neu bwrpas penodol i'r darn hynny o gynnwys.

Enghreifftiau o hynny yw:

i) Cyfweliad gyda ffigurau blaenllaw a phoblogaidd sy'n mynd i apelio at a chyrraedd cynulleidfa eang gan ddenu pobol at gynnwys arall S4C yn y Gymraeg.
ii) Cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu yn y Gymraeg a'r Saesneg sy'n addysgu pobol am Gymru a'r Gymraeg.
iii) Cynnwys sydd wedi ei glipio o brif gynnwys S4C, sy'n debygol o gyrraedd cynulleidfa ehangach ar YouTube gan ddod â gwylwyr at gynnwys Cymraeg S4C.
iv) Chwaraeon neu ddigwyddiadau sydd â dewis o sylwebaeth Gymraeg neu Saesneg (lle mae hawliau'n caniatáu).

Byddwn yn sicrhau bod cydbwysedd y cynnwys ar draws y gwasanaeth yn Gymraeg yn bennaf.

7. ADNODDAU

Mae nifer o adnoddau ar gael i bawb sy'n helpu sicrhau cywirdeb a phriodoldeb ffurfiau ieithyddol, ymadroddion a geiriau penodol.

7.1 Geiriaduron a therminoleg

- **Geiriadur yr Academi** – geiriadur Saesneg i Gymraeg yn unig: https://geiriaduracademi.org
- **Geiriadur Prifysgol Cymru** – yn cynnwys ffurfiau Cymraeg hanesyddol yn ogystal â rhai cyfoes: www.geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html
- **Gweiadur:** geiriadur Cymraeg–Saesneg a thesawrws ar-lein, sydd hefyd yn cynnwys ymadroddion idiomatig a rhediad berfenwau. Angen creu cyfrif i'w ddefnyddio: www.gweiadur.com
- **BydTermCymru** – cronfa ddata o derminoleg swyddogol Llywodraeth Cymru, ffynhonnell safonol ar gyfer terminoleg newydd: https://www.llyw.cymru/bydtermcymru/search
- **Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru** – rhestr wedi'i chreu a'i chynnal gan Gomisiynydd y Gymraeg: www.comisiynyddygymraeg.cymru/polisi-ac-ymchwil/enwau-lleoedd. Mae modd cysylltu'n uniongyrchol â'r Comisiynydd am gyngor ynghylch sut mae ymdrin ag enwau lleoedd drwy ddefnyddio'r cyfeiriad ebost post@cyg-wlc.cymru
- **Enwau Lleoedd Tramor** – rhestr sy'n ffrwyth gwaith safoni ar y cyd rhwng Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru a Phanel Safoni Enwau Lleoedd Comisiynydd y Gymraeg: www.llyw.cymru/enwau-lleoedd-tramor
- **Porth Termau Cenedlaethol Cymru** – rhestrau terminoleg arbenigol gan Brifysgol Bangor: https://termau.cymru
- Y Termiadur Addysg – rhestr o dermau safonol a ddefnyddir yn y cwricwlwm cenedlaethol, a'r byd addysg: www.termiaduraddysg.cymru
- **Termiadau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol** – rhestrau terminoleg arbenigol addysg uwch gan Goleg Cymraeg Cenedlaethol: https://colegcymraeg.ac.uk/termau

7.2 Cymorth gramadegol a golygyddol

- **Cysgeir a Cysill** – cymorth sillafu a gramadeg ar gyfer creu dogfennau Cymraeg, gan Brifysgol Bangor – fersiwn ar-lein am ddim a hefyd mae modd ychwanegu at Word yn Microsoft Windows: www.cysgliad.com/cy
- **Yr Arddulliadur** – canllawiau arddull gan Wasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru: www.llyw.cymru/bydtermcymru/style-guide
- **Cymraeg Clir** – canllawiau ysgrifennu gan Ganolfan Bedwyr ym Mhrifysgol Bangor: www.bangor.ac.uk/canolfanbedwyr/cymraeg_clir.php.cy

7.3 Adnoddau eraill

- **Corpws Cenedlaethol Cymraeg Cyfoes** – mae'n bosibl pori'r Corpws i weld sut mae geiriau penodol Cymraeg yn cael eu defnyddio mewn cyd-destunau gwahanol: https://corcencc.cymru//
- **Pecyn iaith Microsoft** – mae'n bosibl gosod pecyn iaith Cymraeg yn Windows, ac wedyn gosod Cymraeg fel iaith dogfennau yn Word, Outlook a rhaglenni eraill – gall hynny osgoi problemau awtogywiro yn ystod y broses ysgrifennu a golygu sgriptiau: https://support.microsoft.com/en-us/office/add-an-editing-or-authoring-language-or-set-language-preferences-in-office-663d9d94-ca99-4a0d-973e-7c4a6b8a827d
- **To Bach** – mae'r pecyn bach hwn yn cael ei ychwanegu at Word ar gyfer Windows ac yn caniatáu i'r defnyddiwr greu acennau Cymraeg yn haws: www.interceptorsolutions.com/tobach

7.4 Hyfforddiant

- **Cymraeg Gwaith** – mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cynnig cyrsiau, gan gynnwys gloywi iaith (ysgrifenedig a llafar), am ddim i bob cyflogwr yng Nghymru: https://dysgucymraeg.cymru/cymraeg-gwaith/gwasanaethau-cymraeg-gwaith-2023
- **Iaith** – mae'r cwmni annibynnol hwn yn cynnig cyrsiau gloywi iaith, ymhlith cyrsiau ieithyddol eraill: www.iaith.cymru/cy/hyfforddiant/ein-hyfforddiant
- **Canolfan Bedwyr** – Mae'r Ganolfan yn cynnig cyrsiau datblygu proffesiynol Cymraeg, a hefyd yn gallu creu cyrsiau pwrpasol yn unol ag anghenion penodol: www.bangor.ac.uk/canolfanbedwyr/cyrsiau/index.php.cy
- Bydd S4C yn gweithio gyda TAC i sicrhau bod hyfforddiant ar gyweiriau a defnydd o'r iaith ar gael i gynhyrchwyr.

Ionawr 2024